



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Diwygio deddfwriaeth ddomestig Cymru sy'n gysylltiedig â maethiad

Ymgynghori ar ddiwygiadau technegol arfaethedig i ddeddfwriaeth ddomestig sy'n gysylltiedig â maethiad er mwyn sicrhau ei bod yn parhau'n weithredadwy ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Dyddiad cyhoeddi: 10 Rhagfyr 2018
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 23 Rhagfyr 2018

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Trosolwg

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ar gynlluniau i ddiwygio deddfwriaeth ddomestig sy'n gysylltiedig â maethiad er mwyn sicrhau ei bod yn gallu parhau i weithredu os bydd y DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb.

Sut i ymateb

Cyflwynwch eich sylwadau erbyn 23 Rhagfyr 2018 drwy ddefnyddio un o'r canlynol:

- **Llenwi'r ffurflen ar-lein**
- **Drwy'r e-bost neu'r post gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.**

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gangen Byw'n Iach ac Egniol

Is-adran Iechyd y Cyhoedd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: **Lifestyles@gov.wales**

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich Hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://swyddfa'r.comisiynydd.gwybodaeth.org.uk/>

Cynnwys

Cefndir	5
Y broses ymgynghori	5
Costau a manteision	6
Cwestiynau'r ddogfen ymgynghori	6

Cefndir

Yn dilyn canlyniad y refferendwm a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2016 a oedd yn datgan y dylai'r Deyrnas Unedig (DU) ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE), mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn adolygu i ba raddau y bydd yr holl ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â maethiad sy'n gymwys yng Nghymru, y mae'n ganddi gyfrifoldeb polisi drosti, yn weithredadwy. Diben yr adolygiad hwn oedd nodi'r diwygiadau oedd eu hangen i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn parhau'n weithredadwy os bydd y DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb.

Mae'r darnau o ddeddfwriaeth ddomestig a ganlyn wedi cael eu henwi fel rhai sydd angen eu diwygio er mwyn sefydlu cyfundrefn orfodi ar gyfer goblygiadau yn deillio o ddeddfwriaeth yr UE yn y maes hwn. Wrth ddiwygio'r darnau hyn o ddeddfwriaeth ddomestig ni roddir unrhyw bwerau newydd i Weinidogion Cymru, mae cyfeiriadau at yr Undeb Ewropeaidd a'i gyrff a'i sefydliadau cyhoeddus yn cael eu hepgor neu eu diwygio i sicrhau y bydd y rheoliadau hyn yn parhau'n gwbl weithredadwy os na fydd cytundeb.

- Rheoliadau Bwyd Meddygol (Cymru) 2000
- Rheoliadau Cafa-cafa mewn Bwyd (Cymru) 2006
- Rheoliadau Ychwanegion Bwyd (Cymru) 2003
- Rheoliadau Fformiwla Fabanod a Fformiwla Ddilynol (Cymru) 2007
- Rheoliadau Ychwanegu Fitaminau, Mwynau a Sylweddau Eraill (Cymru) 2007
- Rheoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) 2007
- Rheoliadau Bwyd at Ddefnydd Maethol Neilltuol (Ychwanegu Sylweddau at Ddibenion Maethol Penodol) (Cymru) 2009
- Rheoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gofynion o ran Gwybodaeth a Chyfansoddiad) (Cymru) 2016

Y broses ymgynghori

Cynhelir yr ymgynghoriad dros gyfnod o bythefnos, er mwyn rhoi cyfle i'r partiön â buddiant yng Nghymru allu rhoi sylwadau ar y cynnig. Bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir fel rhan o'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hystyried yn ofalus a chrynodeb o'r ymatebion a dderbynnir yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru cyn pen 3 mis i'r dyddiad y daw yr ymgynghoriad i ben.

Bydd Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cynnal ymarferion ymgynghori tebyg eu hunain ynglŷn â'u rheoliadau domestig hwythau.

Ymgynghoriadau eraill

Mae Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol San Steffan yn gwneud diwygiadau o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 i gyfraith yr UE a ddargedwir sy'n gysylltiedig â maethiad ar sail y DU gyfan. Mae ymgynghoriad ar gyfer y DU gyfan yn rhedeg o 3 Rhagfyr 2018 i 14 Rhagfyr 2018. Mae copi o'r ymgynghoriad ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/consultations/the-nutrition-amendment-eu-exit-regulations-2018>

Costau a manteision

Diwydiant

Mae'r ddeddfwriaeth yn effeithio ar weithgynhyrchwyr a manwerthwyr: bwydydd wedi'u rhagbecynnu ac atchwanegiadau bwyd; fformiwlâu babanod a fformiwlâu dilynol; bwydydd proses sydd wedi'u seilio ar rawn a bwydydd babanod; bwyd ar gyfer dibenion meddygol arbennig; amnewid deiet yn llwyr er mwyn rheoli pwysau; cynnyrch bwyd sy'n gwneud honiadau am faethiad neu iechyd mewn deunyddiau cyfathrebu masnachol, boed ar labeli, y ffordd y'i cyflwynir neu mewn deunyddiau hysbysebu. Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu cynnig ac rydym yn amcangyfrif mai dim ond ychydig o amser y bydd angen i fusnesau ei dreulio ar ymgyfarwyddo â'r gweithdrefnau newydd. Bydd dogfennau canllaw yn cael eu diweddarau a'u cyhoeddi yn ôl y galw.

Y sector cyhoeddus

Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y polisi hwn. Rydym yn ystyried na fydd y ddeddfwriaeth i wneud deddfwriaeth yr UE sy'n gysylltiedig â bwyd a maethiad yn rhan o'r ddeddfwriaeth ddomestig yn cael unrhyw effaith ar gydraddoldeb mewn perthynas ag unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (oed, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, neu gyfeiriadedd rhywiol), nac yn cael effaith anghymesur ar unrhyw grŵp penodol. Ni fydd y polisi yn cael effaith ychwaith ar berthnasoedd na swyddogaethau teuluol.

Manteision

Nid oes unrhyw fuddiannau cynyddrannol yn gysylltiedig â'r cynnig oherwydd nad yw'n rhoi pwysau ychwanegol na newydd ar fusnesau a chyrff gorfodi.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

1. Ydych chi'n cytuno â'r dull a gynigir ar gyfer diwygio deddfwriaeth ddomestig sy'n gysylltiedig â maethiad?
2. Ydych chi'n cytuno â'r effeithiau a nodwyd yn yr ymgynghoriad hwn?
3. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw effeithiau nad ydynt wedi'u nodi yn yr ymgynghoriad hwn?
4. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud ar y mater hwn?

Dull arfaethedig ar gyfer diwygio deddfwriaeth ddomestig Cymru sy'n gysylltiedig â maethiad.

Ffurflen Ymateb

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Dylid anfon ymatebion erbyn 23 Rhagfyr 2018 i;

Y Gangen Byw'n Iach ac Egniol

Is-adran Iechyd y Cyhoedd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Neu llenwch y ffurflen yn electronig a'i hanfon i: **Lifestyles@gov.wales**

1. Ydych chi'n cytuno â'r dull a gynigir ar gyfer diwygio deddfwriaeth ddomestig sy'n gysylltiedig â maethiad?
1. Ydych chi'n cytuno â'r effeithiau a nodwyd yn yr ymgynghoriad hwn?
2. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw effeithiau nad ydynt wedi'u nodi yn yr ymgynghoriad hwn?
3. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud ar y mater hwn?

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma.